

# Rhaid Ildio

*“Dysg i mi wneud dy ewyllys, oherwydd ti yw fy Nuw.” (adn. 10)*

## Beth am ddarllen Salm 143:1–12 ac yna myfyrio

Un o'r pethau tristaf a welir mewn cylchoedd Cristnogol y diwrnodau hyn yw'r symud oddi wrth y greddo draddodiadol mewn uffern. Mae yna nifer o Gristnogion rhyddfrydig eu meddwl yn mabwysiadu cyffredinoliaeth – y syniad y bydd pawb yn y diwedd yn cael eu hachub ac yn cyrraedd y nefoedd. Oi gymharu â hyn, mae nifer o Gristnogion efengylaidd yn mabwysiadu'r theori ynglŷn â darfordiad llwyr popeth – y greddo mai ond Cristnogion fydd yn byw am byth, oherwydd fe fydd yr annuwiol yn cael eu difa yn llwyr.

Fe all fod yna rai dadleuon o blaid y syniad yma, er nad wyf yn eu credu yn bersonol. Ond nid oes dadl o gwbl dros gyffredinoliaeth – y syniad y bydd pawb yn y diwedd yn cyrraedd y nefoedd. Nid yw'r theori yma yn rhoi ystyriaeth o gwbl i rym yr ewyllys ddynol. Pan fu i Dduw roi ewyllys i ni, gwnaeth hynny gan wybod y byddem yn defnyddio grym ein hewyllys i'w wrthwynebu. Eto, mae'n rhoi'r ewyllys yma i ni. Mae'n llawenydd fel unigolion yn gorwedd yn unig yn y ffaith ein bod yn ildio'r ewyllys yna i'r Creawdwr. Ond y mae'n rhaid i ni ildio, neu bydd Duw yn ein gorfodi.

Fe fyddai'n braf i weinidogaethu yn y cyd-destun bod pawb yn y diwedd yn mynd i gael eu hachub. Er hynny, rhaid i mi gytuno gyda C. S. Lewis a ysgrifennodd fel hyn: “Pan fo pobl yn dweud wrthyf fod pawb yn mynd i fod yn gadwedig, mae fy rheswm yn dweud, gyda'u hewyllys neu heb eu hewyllys. Os dywedaf heb eu hewyllys, rwy'n gweld anhawster. Sut gall y gwaith yma o ildio'r ewyllys fod yn rhywbeth yr ydym yn ei wneud yn anfoddog. Os dywedaf gyda'u hewyllys, mae fy rheswm yn ateb, sut, os nad ydynt yn barod i ildio?”

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Josua 24:11–15; Deut. 30:19; 1 Bren. 18:21

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd cynnig Josua i'r bobl?
2. Beth oedd ei ymateb ef ei hun?

## Gweddi

O Dad trugarog a grasol, diolch fod ffynnon fy llawenydd yn gorffwys yn y gallu a roddaist i mi i ildio fy ewyllys i ti. Diolch, wrth roi'r gallu, dy fod ti hefyd wedi meddiannu fy ewyllys. Yr wyf yn diolch i ti yn dragwyddol. Amen.